OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 1156 (Cy. 239)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

# Gorchymyn Iechyd Anifeiliaid (Compartmentau Dofednod a Chrynoadau Anifeiliaid) (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2022

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio—

(a) Gorchymyn Compartmentau Dofednod (Ffioedd) (Cymru) 2010 (O.S. 2010/1781) (Cy. 170) ("y Gorchymyn Ffioedd Compartmentau Dofednod"); a

(b) Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/645) (Cy. 119) ("y Gorchymyn Ffioedd Crynoadau Anifeiliaid").

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu darpariaethau yn y Gorchymyn Ffioedd Compartmentau Dofednod sy'n darparu ar hyn o bryd fod Treth ar Werth (TAW) yn cael ei hychwanegu at ffioedd a godir o dan y Gorchymyn hwnnw. Mae hefyd yn cynyddu'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru am wasanaethau a ddarperir gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion mewn perthynas â'r Gorchymyn Ffioedd Crynoadau Anifeiliaid.

Mae erthygl 2 yn diwygio'r Gorchymyn Ffioedd Compartmentau Dofednod er mwyn hepgor y geiriau "+ TAW" bob tro y maent yn digwydd yn y tabl yn yr Atodlen, fel nad yw TAW yn daladwy bellach mewn cysylltiad â'r ffioedd a nodir yn y tabl.

Mae erthygl 3 yn diwygio'r Gorchymyn Ffioedd Crynoadau Anifeiliaid er mwyn rhoi, yn lle'r Atodlen, Atodlen newydd sy'n darparu ar gyfer ffioedd uwch ar gyfer trwyddedu mangreoedd ar gyfer crynoadau anifeiliaid. Mae'r Atodlen newydd yn darparu fel a ganlyn.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2022 No. 1156 (W. 239)

# ANIMALS, WALES

## ANIMAL HEALTH

# The Animal Health (Poultry Compartments and Animal Gatherings) (Fees) (Wales) (Amendment) Order 2022

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order amends—

(a) the Poultry Compartments (Fees) (Wales) Order 2010 (S.I. 2010/1781) (W. 170) ("the Poultry Compartments Fees Order"); and

(b) the Animal Gatherings (Fees) (Wales) Order 2018 (S.I. 2018/645) (W. 119) ("the Animal Gathering Fees Order").

This Order revokes provisions in the Poultry Compartments Fees Order which currently provide for Value Added Tax (VAT) to be added to fees charged under that Order. It also uplifts fees payable to the Welsh Ministers for services provided by the Animal and Plant Health Agency in relation to the Animal Gathering Fees Order.

Article 2 amends the Poultry Compartments Fees Order to omit the words "+ VAT" each time they occur in the table in the Schedule, so that VAT is no longer payable in respect of the fees set out in the table.

Article 3 amends the Animal Gatherings Fees Order to substitute a new Schedule providing for increased fees for the licensing of premises for animal gatherings. The new Schedule provides as follows.

(a) Mae Tabl 1 yn nodi'r ffioedd sy'n daladwy am drwyddedu mangreoedd ar gyfer gwerthiannau anifeiliaid neu ganolfannau casglu nad ydynt yn esempt o dan erthygl 3(4). Mae colofn 2 yn darparu ar gyfer cynnydd interim ar gyfer ceisiadau sy'n dod i law a thrwyddedau a adnewyddir ar 30 Tachwedd 2023 neu cyn hynny. Mae colofn 3 yn gymwys i geisiadau sy'n dod i law a thrwyddedau a adnewyddir ar ôl 30 Tachwedd 2023 ac yn darparu ar gyfer cynnydd pellach. Mae'r ffioedd a nodir yng ngholofn 3 yn cynrychioli'r cynnydd canrannol a ganlyn i'r ffioedd cyfredol (wedi ei dalgrynnu i'r cyfanrif agosaf): 48% (rhes 3), 65% (rhes 4), 57% (rhes 5) a 42% (rhes 6).

(b) Mae Tabl 2 yn nodi'r ffioedd sy'n daladwy am drwyddedu mangreoedd ar gyfer sioeau neu arddangosfeydd nad ydynt yn esempt o dan erthygl 3(4). Mae colofn 2 yn darparu ar gyfer cynnydd interim ar gyfer ceisiadau sy'n dod i law a thrwyddedau a adnewyddir ar 30 Tachwedd 2023 neu cyn hynny. Mae colofn 3 yn gymwys i geisiadau sy'n dod i law a thrwyddedau a adnewyddir ar ôl 30 Tachwedd 2023 ac yn darparu ar gyfer cynnydd pellach. Mae'r ffioedd a nodir yng ngholofn 3 yn cynrychioli'r cynnydd canrannol a ganlyn i'r ffioedd cyfredol (wedi ei dalgrynnu i'r cyfanrif agosaf): 107% (rhes 3), 67% (rhes 4), 85% (rhes 5), 55% (rhes 6) a 46% (rhes 7).

(c) Mae Tabl 3 yn nodi ffioedd atodol sy'n daladwy am drwyddedu mangreoedd. Mae colofn 2 yn darparu ar gyfer cynnydd interim ar gyfer ymweliadau milfeddygol a gynhelir ar 30 Tachwedd 2023 neu cyn hynny. Mae colofn 3 yn gymwys i ymweliadau milfeddygol a gynhelir ar ôl 30 Tachwedd 2023 ac yn darparu ar gyfer cynnydd pellach. Mae'r ffioedd a nodir yng ngholofn 3 yn cynrychioli'r cynnydd canrannol a ganlyn i'r ffioedd cyfredol (wedi ei dalgrynnu i'r cyfanrif agosaf): 84% (rhesi 3 a 4), 38% (rhes 5) a 5% (rhes 6).

Mae erthygl 4 yn gwneud darpariaeth drosiannol fel nad yw'r diwygiadau hyn yn gymwys mewn perthynas â chais a wneir cyn i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

(a) Table 1 sets out fees payable for the licensing of premises for animal sales or collection centres that are not exempt under article 3(4). Column 2 provides for an interim increase for applications received and renewals undertaken on or before 30th November 2023. Column 3 applies to applications received and renewals undertaken after 30th November 2023 and provides for a further increase. The fees set out in column 3 represent the following percentage increases to the current fees (rounded to the nearest integer): 48% (row 3), 65% (row 4), 57% (row 5) and 42% (row 6).

(b) Table 2 sets out fees payable for the licensing of premises for shows or exhibitions that are not exempt under article 3(4). Column 2 provides for an interim increase for applications received and renewals undertaken on or before 30th November 2023. Column 3 applies to applications received and renewals undertaken after 30th November 2023 and provides for a further increase. The fees set out in column 3 represent the following percentage increases to the current fees (rounded to the nearest integer): 107% (row 3), 67% (row 4), 85% (row 5), 55% (row 6) and 46% (row 7).

(c) Table 3 sets out additional fees payable for the licensing of premises. Column 2 provides for an interim increase for veterinary visits undertaken on or before 30th November 2023. Column 3 applies to veterinary visits undertaken after 30th November 2023 and provides for a further increase. The fees set out in column 3 represent the following percentage increases to the current fees (rounded to the nearest integer): 84% (rows 3 and 4), 38% (row 5) and 5% (row 6).

Article 4 makes transitional provision so that these amendments do not apply in relation to an application made before the coming into force of this Order.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with this Order. A copy can be obtained from the Office of the Chief Veterinary Officer, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 1156 (Cy. 239)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

## Gorchymyn Iechyd Anifeiliaid (Compartmentau Dofednod a Chrynoadau Anifeiliaid) (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *8 Tachwedd 2022* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *10 Tachwedd 2022* |
| *Yn dod i rym* | *1 Rhagfyr 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 84(1) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**).

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Iechyd Anifeiliaid (Compartmentau Dofednod a Chrynoadau Anifeiliaid) (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2022.

(2) Mae'n gymwys o ran Cymru a daw i rym ar 1 Rhagfyr 2022.

(**1**) 1981 p. 22. Diffinnir y term "the Ministers" yn adran 86(1)(c). Mae swyddogaethau a roddwyd i "the Ministers" o dan y Ddeddf, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny i Senedd Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, fe'u trosglwyddwyd i Weinidogion Cymru. Yn rhinwedd paragraff 7 o Ran 2 o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r gofyniad i gael cymeradwyaeth y Trysorlys yn adran 84(1) wedi ei ddatgymhwyso.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2022 No. 1156 (W. 239)

# ANIMALS, WALES

## ANIMAL HEALTH

## The Animal Health (Poultry Compartments and Animal Gatherings) (Fees) (Wales) (Amendment) Order 2022

| | |
|---|---|
| *Made* | *8 November 2022* |
| *Laid before Senedd Cymru* | *10 November 2022* |
| *Coming into force* | *1 December 2022* |

The Welsh Ministers make this Order in exercise of the powers conferred by section 84(1) of the Animal Health Act 1981(**1**).

**Title, application and commencement**

**1.**—(1) The title of this Order is the Animal Health (Poultry Compartments and Animal Gatherings) (Fees) (Wales) (Amendment) Order 2022.

(2) It applies in relation to Wales and comes into force on 1 December 2022.

(**1**) 1981 c. 22. The term "the Ministers" is defined in section 86(1)(c). Functions conferred on "the Ministers" under the Act are, in so far as exercisable in relation to Wales, vested in the Welsh Ministers. Those functions were transferred to Senedd Cymru by article 2 of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). By virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32) they were transferred to the Welsh Ministers. By virtue of paragraph 7 of Part 2 of Schedule 3 to the Government of Wales Act 2006, the requirement for Treasury approval in section 84(1) is dis-applied.

**Diwygio Gorchymyn Compartmentau Dofednod (Ffioedd) (Cymru) 2010**

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Compartmentau Dofednod (Ffioedd) (Cymru) 2010(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn y tabl yn yr Atodlen, ym mhob lle y mae'n digwydd, hepgorer "+ TAW".

**Diwygio Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2018**

**3.**—(1) Mae Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2018(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn nhestun Saesneg erthygl 2, yn y diffiniad o "collection centre", yn lle "a premises" rhodder "premises".

(3) Yn lle'r Atodlen rhodder yr Atodlen a nodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Darpariaeth drosiannol**

**4.** Nid yw'r diwygiadau a wneir gan erthyglau 2 a 3 yn cael unrhyw effaith mewn perthynas ag unrhyw ffi a godir mewn perthynas â chais sy'n dod i law Gweinidogion Cymru cyn i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

**Amendment to the Poultry Compartments (Fees) (Wales) Order 2010**

**2.**—(1) The Poultry Compartments (Fees) (Wales) Order 2010(**1**) is amended as follows.

(2) In the table in the Schedule, in each place it occurs omit "+ VAT".

**Amendment to the Animal Gatherings (Fees) (Wales) Order 2018**

**3.**—(1) The Animal Gatherings (Fees) (Wales) Order 2018(**2**) is amended as follows.

(2) In article 2, in the definition of "collection centre", for "a premises" substitute "premises".

(3) For the Schedule substitute the Schedule set out in the Schedule to this Order.

**Transitional provision**

**4.** The amendments made by articles 2 and 3 have no effect in relation to any fee charged in relation to an application received by the Welsh Ministers before the coming into force of this Order.

*Lesley Griffiths*

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru
8 Tachwedd 2022

Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd, one of the Welsh Ministers
8 November 2022

(**1**) O.S. 2010/1781 (Cy. 170).
(**2**) O.S. 2018/645 (Cy. 119).

(**1**) S.I. 2010/1781 (W. 170).
(**2**) S.I. 2018/645 (W. 119).

## YR ATODLEN

Erthygl 3(3)

## “YR ATODLEN

Erthygl 3

**Tabl 1**

**Ffioedd sy’n daladwy am drwyddedu mangreoedd ar gyfer gwerthiannau anifeiliaid neu ganolfannau casglu nad ydynt wedi eu heithrio o dan erthygl 3(4) o’r Gorchymyn hwn**

| *Colofn 1* | *Colofn 2* | *Colofn 3* |
|---|---|---|
| *Gweithgaredd* | *Ffi (£) am geisiadau sy’n dod i law, a thrwyddedau a adnewyddir, ar 30 Tachwedd 2023 neu cyn hynny* | *Ffi (£) am geisiadau sy’n dod i law, a thrwyddedau a adnewyddir, ar ôl 30 Tachwedd 2023* |
| Cais am ddyroddi neu (pan fo’r fangre wedi ei newid yn sylfaenol) ddiwygio trwydded ar gyfer mangre werthu neu ganolfan gasglu pan fo arolygydd milfeddygol yn asesu bod y fangre honno yn peri risg isel o ran clefydau. Mae’r ffi hon yn cynnwys hyd at 90 o funudau o amser arolygu. | 318 | 379 |
| Cais am ddyroddi neu (pan fo’r fangre wedi ei newid yn sylfaenol) ddiwygio trwydded ar gyfer mangre werthu neu ganolfan gasglu pan fo arolygydd milfeddygol yn asesu bod y fangre honno yn peri mwy na risg isel o ran clefydau. Mae’r ffi hon yn cynnwys hyd at 2 x 90 o funudau o amser arolygu. | 550 | 685 |
| Ffi adnewyddu trwydded flynyddol ar gyfer mangre a ddefnyddir ar gyfer gwerthiannau anifeiliaid neu fel canolfan gasglu, pan fo arolygydd milfeddygol yn asesu bod y fangre honno yn peri risg isel o ran clefydau, a’i bod yn ofynnol cynnal un ymweliad arolygu yn unig er mwyn penderfynu ar yr adnewyddiad. Mae’r ffi hon yn cynnwys hyd at 75 o funudau o amser arolygu. | 279 | 340 |
| Ffi adnewyddu trwydded flynyddol ar gyfer mangre a | 414 | 486 |

| | | |
|---|---|---|
| ddefnyddir ar gyfer gwerthiannau anifeiliaid neu fel canolfan gasglu, pan fo arolygydd milfeddygol yn asesu bod y fangre honno yn peri mwy na risg isel o ran clefydau, a'i bod yn ofynnol felly cynnal dau ymweliad arolygu er mwyn penderfynu ar yr adnewyddiad. Mae'r ffi hon yn cynnwys hyd at 2 x 75 o funudau o amser arolygu. | | |

**Tabl 2**

**Ffioedd sy'n daladwy am drwyddedu mangreoedd ar gyfer sioeau neu arddangosfeydd nad ydynt wedi eu heithrio o dan erthygl 3(4) o'r Gorchymyn hwn**

| *Colofn 1* | *Colofn 2* | *Colofn 3* |
|---|---|---|
| *Gweithgaredd* | *Ffi (£) am geisiadau sy'n dod i law, a thrwyddedau a adnewyddir, ar 30 Tachwedd 2023 neu cyn hynny* | *Ffi (£) am geisiadau sy'n dod i law, a thrwyddedau a adnewyddir, ar ôl 30 Tachwedd 2023* |
| Cais am drwydded i drefnu sioeau neu arddangosfeydd mewn mangre y mae arolygydd milfeddygol yn asesu ei bod yn peri risg isel o ran clefydau. Mae'r ffi hon yn cynnwys hyd at 60 munud o amser arolygu. | 175 | 236 |
| Cais am drwydded i drefnu sioeau neu arddangosfeydd mewn mangre y mae arolygydd milfeddygol yn asesu ei bod yn peri mwy na risg isel o ran clefydau. Mae'r ffi hon yn cynnwys hyd at 90 o funudau o amser arolygu. | 327 | 408 |
| Adnewyddu trwydded mangre sioeau neu arddangosfeydd yn flynyddol pan fo arolygydd milfeddygol yn asesu nad yw ymweliad arolygu yn ofynnol. | 130 | 168 |
| Adnewyddu trwydded mangre sioeau neu arddangosfeydd yn flynyddol pan fo arolygydd milfeddygol yn asesu bod ymweliad arolygu sylfaenol yn ofynnol. Mae'r ffi hon yn cynnwys hyd at 60 munud o | 141 | 171 |

| | | |
|---|---|---|
| amser arolygu. | | |
| Adnewyddu trwydded mangre sioeau neu arddangosfeydd yn flynyddol pan fo arolygydd milfeddygol yn asesu bod mwy nag ymweliad arolygu sylfaenol yn ofynnol. Mae’r ffi hon yn cynnwys hyd at 60 munud o amser arolygu. | 193 | 229 |

**Tabl 3**

**Ffioedd atodol sy’n daladwy am drwyddedu mangreoedd**

| *Colofn 1* | *Colofn 2* | *Colofn 3* |
|---|---|---|
| *Gweithgaredd* | *Ffi (£) am ymweliadau milfeddygol a gynhelir ar 30 Tachwedd 2023 neu cyn hynny* | *Ffi (£) am ymweliadau milfeddygol a gynhelir ar ôl 30 Tachwedd 2023* |
| Ymweliad milfeddygol ychwanegol at ddiben ystyried cais am drwydded, adnewyddu trwydded yn flynyddol neu ymweliad dilynol yn sgil peidio â chydymffurfio, sy’n cynnwys hyd at 75 o funudau o amser arolygydd milfeddygol ar gyfer yr ymweliad hwnnw. | 246 | 318 |
| Ymweliad milfeddygol at ddiben ystyried cais am newid gweithredol yn ystod y flwyddyn, sy’n cynnwys hyd at 75 o funudau o amser arolygydd milfeddygol ar gyfer yr ymweliad hwnnw. | 246 | 318 |
| Tâl atodol ar unrhyw ymweliad pan fo’r amser arolygu milfeddygol yn hwy na’r amser penodedig a ddarperir yn yr Atodlen hon. | 22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir | 22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir |
| Yr amser a dreulir gan arolygydd milfeddygol yn teithio i’r fangre drwyddedig, neu’r fangre y bwriedir ei thrwyddedu, ac oddi yno, at ddiben gweithgareddau trwyddedu nad ydynt wedi eu heithrio rhag ffioedd o dan erthygl 3(4) o’r Gorchymyn hwn. | 22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir, hyd at uchafswm o 132 | 22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir, hyd at uchafswm o 132” |

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Jeff James, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

# SCHEDULE

Article 3(3)

# “SCHEDULE

Article 3

**Table 1**

**Fees payable for the licensing of premises for animal sales or collection centres that are not exempt under article 3(4) of this Order**

| *Column 1* | *Column 2* | *Column 3* |
|---|---|---|
| *Activity* | *Fee (£) for applications received, and renewals undertaken, on or before 30th November 2023* | *Fee (£) for applications received, and renewals undertaken, after 30th November 2023* |
| Application for the issue or (where the premises have been radically changed) amendment of a licence for sale premises or a collection centre where such premises are assessed by a veterinary inspector as presenting a low risk of disease. This fee includes up to 90 minutes of inspection time. | 318 | 379 |
| Application for the issue or (where the premises have been radically changed) amendment of a licence for sale premises or a collection centre, where such premises are assessed by a veterinary inspector as presenting more than a low risk of disease. This fee includes up to 2 x 90 minutes of inspection time. | 550 | 685 |
| Annual licence renewal fee for premises used for animal sales or as a collection centre, where such premises are assessed by a veterinary inspector as presenting a low disease risk requiring only one inspection visit for the determination of the renewal. This fee includes up to 75 minutes of inspection time. | 279 | 340 |
| Annual licence renewal fee for premises used for animal sales or as a collection centre, where such premises are assessed by a veterinary | 414 | 486 |

| | | |
|---|---|---|
| inspector as presenting more than a low disease risk, and therefore requiring two inspection visits for the determination of the renewal. This fee includes up to 2 x 75 minutes of inspection time. | | |

**Table 2**

**Fees payable for the licensing of premises for shows or exhibitions that are not exempt under article 3(4) of this Order**

| *Column 1* | *Column 2* | *Column 3* |
|---|---|---|
| *Activity* | *Fee (£) for applications received, and renewals undertaken, on or before 30th November 2023* | *Fee (£) for applications received, and renewals undertaken, after 30th November 2023* |
| Application for a licence to organise shows or exhibitions on premises assessed by a veterinary inspector as presenting a low risk of disease. This fee includes up to 60 minutes of inspection time. | 175 | 236 |
| Application for a licence to organise shows or exhibitions on premises assessed by a veterinary inspector as presenting more than a low risk of disease. This fee includes up to 90 minutes of inspection time | 327 | 408 |
| Annual licence renewal of show or exhibition premises where a veterinary inspector assesses no inspection visit is required. | 130 | 168 |
| Annual licence renewal of a show or exhibition premises where a veterinary inspector assesses a basic inspection visit is required. This fee includes up to 60 minutes of inspection time. | 141 | 171 |
| Annual licence renewal of show or exhibition premises where a veterinary inspector assesses more than a basic inspection visit is required. This fee includes up to 60 minutes of inspection time | 193 | 229 |

**Table 3**

**Additional fees payable for the licensing of premises**

| *Column 1* | *Column 2* | *Column 3* |
|---|---|---|
| *Activity* | *Fee (£) for veterinary visits undertaken on or before 30th November 2023* | *Fee (£) for veterinary visits undertaken after 30th November 2023* |
| Extra veterinary visit for the purpose of consideration of an application for a licence, annual renewal of a licence or follow-up non-compliance visit, that includes up to 75 minutes of veterinary inspector time for such visit. | 246 | 318 |
| A veterinary visit for the purpose of consideration of a request for an in year operational change, that includes up to 75 minutes of veterinary inspector time for such visit. | 246 | 318 |
| Additional charge on any visit where the veterinary inspection time exceeds the fixed time provided in this Schedule. | 22 per quarter hour or part quarter hour spent | 22 per quarter hour or part quarter hour spent |
| Time spent by a veterinary inspector travelling to and from the licensed premises, or premises proposed to be licensed, for the purpose of licensing activities that are not exempt from fees under article 3(4) of this Order. | 22 per quarter hour or part quarter hour spent, up to a maximum of 132 | 22 per quarter hour or part quarter hour spent, up to a maximum of 132” |

© Crown copyright 2022

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of His Majesty’s Stationery Office and King’s Printer of Acts of Parliament.

£6.90

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2022/1156

ISBN 978-0-348-39376-7